

Tasg 1

Gwyliau delfrydol

1. Atebwch y cwestiynau yma.

a. Pa fath o berson ydy Steph, tybed?

b. Sut mae Steph a Chris yn wahanol?

c. Beth hoffai Steph wneud yn y gofod?

ch. Ydy Steph yn mynd i wneud hyn yn eich barn chi? Rhowch reswm dros eich ateb.

Ewch i'r dudalen nesaf.

2. a. Pa fath o wyliau hoffai Chris gael, tybed? Ysgrifennwch eich syniadau:

- Ble?
- Pam?
- Beth yn union fasai'n gwneud?

b. Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau'r grŵp.
Pa syniad ydy'r gorau, tybed?

3. Mae'r gwyliau yn y gofod yn costio tua \$250,000.

Faint ydy hyn mewn punnoedd?

Dangoswch eich gwaith cyfrifo.

Geirfa

tybed	I wonder	gwaith cyfrifo	calculations
yn union	exactly	gorau	best

4. Beth ydy'ch barn chi am y gwyliau mae Steph yn disgrifio? Rhowch resymau.

Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau'r grŵp.

5. Hoffech chi fynd ar wyliau yn y gofod? Pam?

Gwnewch nodiadau ac yna trafodwch y cwestiwn mewn grŵp.



6. Mae cylchgrawn i bobl ifanc eisiau gwybod beth fasai'ch gwyliau delfrydol chi.

Ysgrifennwch ddarn i'r cylchgrawn. Rhaid i chi ddweud:

- ble
- pam
- pryd
- gyda pwy
- sut
- manylion – beth fasech chi'n gwneud.

Hoffwn i ...

Hoffwn i fynd i ... achos ...

Baswn i'n mynd ym mis ...

Baswn i'n ... yno.



Geirfa

cylchgrawn

magazine

7. Mewn grŵp, rhaid i bawb siarad am eu gwyliau delfrydol.
Gofynnwch gwestiynau i'ch gilydd.

Ble hoffet ti fynd?

Pam hoffet ti fynd
yno?

Pryd faset ti'n mynd?

Beth faset ti'n
gwneud?

8. Beth ydy'ch barn chi am wyliau'ch gilydd? Cofiwch roi rhesymau.

